



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

24 MAWRTH 2021

CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021/22

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2021/22

RHESYMAU:

Lluniwyd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2021/22 ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad: Chris Moore	Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Gâr	Rhif Ffôn: 01267 224160 E-bost: CMoore@carmarthenshire.gov.uk
---	--	--

CRYNODEB GWEITHREDOL

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

24 MAWRTH 2021

CYNLLUN HYFFORDDIANT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - 2021/22

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Lluniwyd y cynllun hyfforddiant hwn ar gyfer y Bartneriaeth i ategu'r hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'r cynllun hyfforddiant hwn yn canolbwytio'n bennaf ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwylgor; foddy bynnag, gellid ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw. Mae gan y Bartneriaeth bolisi hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyflwynwyd Asesiad Gwybodaeth Cyd-fuddsoddi CPLIL i holl aelodau'r Cydbwylgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion ym mis Ionawr 2021 ac fe luniwyd cynllun hyfforddi 2021/22 gan ddefnyddio'r canlyniadau o'r asesiad hwn.

Cynhelir sesiynau hyfforddiant 2021/22 bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau a ganlyn:

- Gwybodaeth am Gynnyrch
- Buddsoddi Cyfrifol
- Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg
- Canllawiau, Gofynion Rheoleiddio ac Arferion Gorau

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	OES
--------------------------	-----

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi <p>Lluniwyd cynllun hyfforddiant a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.</p>				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN